

# Ffair Lyfrau yn Y Bala



Cynhaliwyd ein Ffair Lyfrau, Recordiau a Mân Lestri flynyddol yn neuadd Ysgol y Berwyn Y Bala ddydd Sadwrn, Medi 17. Roedd yno eitemau ar werth at dast pawb, gyda phrisiau amrywiol a nifer o fargeinion. Balch oedd gweld aelodau a chyfeillion wedi dod i gefnogi'r diwrnod yma o bell ac agos. Cofiwch roi dyddiad ein Ffair flwyddyn nesaf yn eich dyddiadur, neu mi allwch fod yn colli allan ar fargen. Paned i'w chael ym mhris mynediad – dyna chi fargen yn syth!

*Lluniau gan EVAN L. DOBSON*

